

A close-up photograph of a hand turning a key in a lock. The key has a house-shaped keychain attached to it. The background is blurred, showing a window with greenery outside. A purple decorative shape is in the top right corner, and a purple-to-white gradient bar is on the left side.

**Adra**



Croeso i'ch Cartref  
**Llawlyfr Cwsmeriaid**

0300 123 8084 | [adra.co.uk](http://adra.co.uk) | [@adrataicyf](https://twitter.com/adrataicyf)

# Croeso i'ch cartref newydd

Gobeithio y byddwch yn mwynhau byw yn eich cartref newydd ac y byddwch yn falch o fod yn gwsmer i ni. Mae'r canllaw byr yma yn rhoi awgrymiadau a chyngor ar sut i ddefnyddio ein gwasanaethau. Cadwch hwn efo'ch contract.

I gael mwy o wybodaeth am bob un o'n gwasanaethau, ewch i'n gwefan: [www.adra.co.uk](http://www.adra.co.uk). Mae eich contract yn egluro eich hawliau a chyfrifoldebau a beth sydd angen i chi ei wneud.

## Rydym yma i helpu

Cysylltwch â ni drwy ffonio **0300 123 8084**.

Mae ein Canolfan Gyswllt ar agor rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Os oes angen i chi roi gwybod i ni am fater brys ar ôl 5pm, cysylltwch efo'n gwasanaeth 24 awr tu allan i oriau ar **0300 123 8084**.

## Trefnu apwyntiad

Gallwn drefnu i'ch gweld chi yn eich cartref neu mewn un o'n swyddfeydd. I drefnu apwyntiad, cysylltwch efo ni.

Mae croeso i chi gysylltu efo ni yn Gymraeg neu Saesneg, pa bynnag iaith sydd orau gennych chi.

[www.adra.co.uk](http://www.adra.co.uk)

[ymholiadau@adra.co.uk](mailto:yholiadau@adra.co.uk)



## Rhestr wirio symud i mewn:

Trefnu Debyd Uniongyrchol i dalu eich rhent

Dweud wrth yr adran Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol am eich cyfeiriad newydd a faint ydi'r rhent

Cofrestru ar gyfer treth y cyngor

Creu cyfrif e-bost

Trefnu yswiriant cynnwys y cartref - mi fedrwn chi wneud hyn efo ni

Cysylltu efo cwmnïau cyfleustodau (nwy a thrydan) i wneud yn siŵr eich bod ar y tariff gorau

Cysylltu efo ni ar ôl i chi greu eich cyfrifon ynni i drefnu ymweliad i roi'r boeler / system wresogi ymlaen a'i brofi (mae'n gallu cymryd hyd at 4 diwrnod i ni ddod allan)

Cysylltu gyda'r Post Brenhinol i anfon eich post ymlaen o'ch hen gyfeiriad i'r un newydd a gadael i'ch banc, darparwr ffôn symudol a chwmnïau cyfleustodau wybod am eich cyfeiriad newydd

Gwneud cais am drwydded deledu

Dod o hyd i wybodaeth am ddyddiadau casglu biniau ac ailgylchu, beth yw band treth cyngor a llawer o wasanaethau lleol eraill drwy ddefnyddio'r wefan: [www.gov.uk/find-local-council](http://www.gov.uk/find-local-council).

Gwneud nodyn o ddarlleniadau'r mesurydd ar y diwrnod pan fyddwch yn symud i mewn

Dŵr

Trydan

Nwy

# Eich Contract

Mae eich contract meddiannaeth yn gontract cyfreithiol. Mae'n nodi pa fath o gontract sydd gennych chi ac yn nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau fel tenant. Cadwch eich contract mewn lle diogel a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n ei ddeall. Gadewch i ni wybod os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich contract.

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, tebyg i rhywun yn symud i mewn neu symud allan neu os ydych chi eisiau gwneud newidiadau i'ch contract, er enghraifft:

- Dod â'ch contract i ben
- Tynnu neu ychwanegu deiliad contract (tenant)



Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth: Newidiadau i'ch tenantiaeth – neu ffoniwch ni i drafod.

**Newid eich manylion** -  
[www.adra.co.uk/tenantiaeth](http://www.adra.co.uk/tenantiaeth)

## Byw yn Eich Cartref

Pan fyddwch wedi llofnodi eich contract a chael y goriadau, byddwn yn disgwyl i chi symud i mewn.

I wneud y siŵr eich bod wedi setlo, byddwn yn cysylltu efo chi o fewn y mis cyntaf ac yn dod i'ch gweld ar ôl 3, 6 a 9 mis o gychwyn eich contract.

Os ydych am fod i ffwrdd o'ch cartref am 28 diwrnod neu fwy, bydd angen i chi roi gwybod i ni yn ysgrifenedig am hynny.

## Bod yn Gymdogol

Mae gan bawb hawl i fwynhau eu cartref mewn heddwch. Rydych yn gyfrifol am ymddygiad pob aelod o'r cartref, gan gynnwys ymwelwyr a phobl sy'n aros efo chi.

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol a gweithgareddau sydd wedi eu gwahardd (ymddygiad gwaharddedig) yn cynnwys pethau fel:

- gwneud gormod o sŵn
- aflonyddu neu fygwth pobl
- trais domestig
- cam-drin corfforol
- defnyddio'r eiddo ar gyfer gweithgareddau anghyfreithlon
- peidio â gwaredu eich sbwriel yn gywir

Rydym yn cymryd y materion yma o ddifri a byddwn yn ymchwilio i unrhyw beth fydd yn cael ei adrodd i ni. Cysylltwch efo ni i roi gwybod am ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Byddwn wedyn yn cytuno ar ba fath o gamau i'w cymryd a byddwch yn cael gwybod am gynnydd.

Os ydych yn dyst i drosedd neu bod trosedd wedi bod yn eich erbyn dylech bob amser roi gwybod i'r heddlu yn y lle cyntaf.

Os oes gennych anifeiliaid anwes, dylech sicrhau nad ydynt yn creu niwsans i'ch cymdogion neu'r gymuned neu yn achosi difrod i'ch cartref.



Ewch i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth

**Ymddygiad gwrth-gymdeithasol** -  
[www.adra.co.uk/ymddygiad-gwrth-gymdeithasol](http://www.adra.co.uk/ymddygiad-gwrth-gymdeithasol)

## Sut i ddod â'r contract i ben

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau byw yn eich cartref. Os ydych yn penderfynu gadael, rhaid i chi roi 4 wythnos o rybudd ysgrifenedig i ddod â'ch tenantiaeth i ben.

Mae mwy o wybodaeth am y broses hon a rhestr wirio o beth sydd angen i chi ei wneud cyn symud allan ar gael ar ein gwefan.



Mwy o wybodaeth:

**Dod a'ch tenantiaeth i ben** -  
[www.adra.co.uk/diwedddenantiaeth](http://www.adra.co.uk/diwedddenantiaeth)



## Eich Rhent

Rhaid talu eich rhent, a thaliadau eraill fel taliadau gwasanaeth ymlaen llaw.

Mae rhent fel arfer yn codi bob mis Ebrill a byddwch yn cael dau fis o rybudd o newidiadau yn eich rhent a thaliadau eraill.

### Dulliau Talu

Mae llawer o ffyrdd o dalu gan gynnwys:

- Debyd Uniongyrchol
- Ar lein ar [www.allpay.net](http://www.allpay.net)
- Ar y ffôn gan ddefnyddio cerdyn debyd - ffoniwch ni ar **0300 123 8084**
- Mewn unrhyw Swyddfa Bost neu Pay Point gan ddefnyddio eich cerdyn rhent
- Ffoniwch ein Tîm Rhent ar **0300 123 8084** i drefnu Debyd Uniongyrchol
- Lawrlwytho ap allpay



Gallwch dalu drwy neges destun – bydd angen i chi gofrestru ar-lein ar:

**Talu rhent** - [www.adra.co.uk/rhent](http://www.adra.co.uk/rhent)

### Taliadau Gwasanaeth

Bydd rhai tenantiaid yn talu tâl ar wahân am yr hyn sy'n cael ei adnabod fel tâl gwasanaeth, yn ogystal â thaliadau rhent. Mae hyn yn cynnwys costau darparu gwasanaethau ychwanegol fel:

- System wresogi gymunedol mewn tai gwarchod
- Cynnal a chadw tir
- Teledu Cylch Cyfyng
- Swyddog tai cefnogol a system larwm argyfwng 24 awr
- Glanhau ardaloedd cymunedol

Bydd unrhyw daliadau gwasanaeth, os ydynt yn gymwys, yn cael eu cynnwys yn eich contract. Byddwn yn eich hysbysu yn ysgrifenedig o leiaf un mis ymlaen llaw cyn i ni wneud unrhyw newidiadau i'ch tâl gwasanaeth.

## Budd-daliadau Tai / Credyd Cynhwysol

Os oes angen i chi wneud cais am fudd-dal tai, dylech ymgeisio cyn gynted ag yr ydych yn llofnodi eich contract.



Gallwch wneud hyn ar-lein drwy eich awdurdod lleol, teipiwch eich côd post i fynd i wefan eich awdurdod lleol, neu siaradwch efo aelod o'n tîm rhent a fyddai'n gallu helpu.

[www.gov.uk/apply-housing-benefit-from-council](http://www.gov.uk/apply-housing-benefit-from-council)

Os ydych yn derbyn Credyd Cynhwysol, rhaid i chi roi gwybod i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) am eich costau tai. Gallwn eich helpu efo hyn drwy roi prawf o'ch rhent a thaliadau gwasanaeth.

## Treth Llofft

Os ydi treth llofft yn effeithio ar eich credyd cynhwysol neu fudd-dal tai, siaradwch efo aelod o'r tîm Rhent a allai o bosib eich helpu.

## Cael trafferth talu eich rhent?

Gadewch i ni wybod cyn gynted â phosib os ydych yn cael trafferth talu eich rhent. Rydym yma i'ch helpu. Gallwch siarad ar y ffôn, gallwn ymweld â chi gartref neu drefnu cyfarfod gyda chi yn unrhyw un o'n swyddfeydd.

Gall ôl-ddyledion rhent arwain at eich troi allan o'ch cartref a gorchymyn llys i ad-dalu'r ôl-ddyledion.

## Gallwn:

- Helpu i reoli eich dyledion
- Gwneud yn siŵr eich bod yn derbyn y budd-daliadau yr ydych yn gymwys i'w derbyn
- Cytuno ar gynllun i glirio eich ôl-ddyledion o fewn amserlen resymol
- Egluro beth all digwydd os caiff camau cyfreithiol eu cymryd, beth sydd angen i chi ei wneud a lle i gael help
- Eich cyfeirio i gael cyngor arbenigol
- Eich cyfeirio i gael cymorth ychwanegol fel y banc bwyd agosaf neu asiantaeth cefnogi

## Gallwch hefyd gael cyngor annibynnol drwy gysylltu â:

**Shelter Cymru: 08000 495 495**

**Cyngor ar Bopeth: 0800 702 2020**

Gallwch hefyd geisio am gyngor cyfreithiol annibynnol eich hun os ydych yn dymuno.

Fel arall, cysylltwch efo'n tîm Rhent, sy'n gallu trefnu i'ch cyfeirio.



# Costau Eraill y Cartref

## Treth y Cyngor

Gadewch i'ch awdurdod lleol wybod eich bod wedi symud i mewn i'ch cartref newydd a threfnu i dalu eich treth cyngor.



[www.gov.uk/find-local-council](http://www.gov.uk/find-local-council)

Teipiwch eich côd post i fynd i wefan eich awdurdod lleol, am fwy o wybodaeth am eich treth cyngor.

## Yswiriant Cynnwys y Cartref

Nid ydym yn yswirio unrhyw eiddo personol yn eich cartref. Nid yw dodrefn ac addurniadau wedi'u hyswirio. Yn anffodus, dim ond ar ôl i ddifrod ddigwydd mae rhai tenantiaid yn sylweddoli hyn.

Mae'n bwysig iawn eich bod yn trefnu yswiriant cynnwys y cartref eich hun neu drwy gymryd yswiriant o dan ein cynllun yswiriant cynnwys y cartref ni sydd wedi'i ddarparu gan gwmni cymeradwy.

Os ydych eisiau cael polisi yswiriant drwy ein cynllun ni, gallwch dalu'n gyfleus am yr yswiriant pan ydych yn talu eich rhent. Bydd ffurflen gais yn cael ei gynnwys gyda'ch dogfennau contract.



Hefyd, gallwch fynd i'n gwefan neu ffonio ni ar **0300 123 8084** am fwy o wybodaeth.

**Yswiriant Cynnwys y Cartref -**  
[www.adra.co.uk/ywswiriant](http://www.adra.co.uk/ywswiriant)

## Cyllidebu

Mae'n bwysig eich bod yn rheoli eich cyllideb yn ofalus i sicrhau bod gennych ddigon o arian i dalu eich rhent.

Gallwch wneud hynny drwy wneud dwy restr syml:

- Arian sy'n dod i mewn fel cyflogau, budd-daliadau neu incwm arall
- Taliadau yr ydych yn eu gwneud fel biliau'r cartref, costau byw a thalu benthyciadau yn ôl.



Mae yna lawer o gynllunwyr cyllideb am ddim ar gael ar-lein i'ch helpu i greu cyllideb.

**Cyfrifiannell Costau Byw -**  
[www.adra.co.uk/cyfrifiannell-costau-byw/](http://www.adra.co.uk/cyfrifiannell-costau-byw/)

Yn y rhan fwyaf o achosion, byddwn wedi gwneud Asesiad Fforddiadwyedd cyn cynnig contract i chi. Os yw eich sefyllfa yn newid, neu os ydych yn cael trafferth rheoli eich cyllideb, neu os ydych eisiau chwilio am help arall sydd ar gael, fel cynyddu eich incwm, cyngor ynni, neu gyngor digidol, cysylltwch efo ni.



# Trwsio, Cynnal a Chadw

## Adrodd am waith trwsio

Fel eich landlord, ni sy'n gyfrifol am gadw'ch eiddo mewn cyflwr da. Rydym hefyd yn cynnal a chadw'r rhannau o'ch cartref a rennir (os oes rhai) fel coridorau a lifftiau. Mae'r holl waith yma yn cael ei dalu gan eich rhent a thaliadau gwasanaeth. Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosib am unrhyw ddiffygion, difrod neu ddiffyg atgyweirio, naill ai i'ch cartref neu unrhyw rannau cymunedol.



### Adrodd am waith trwsio:

- Ffoniwch ni ar 0300 123 8084
- Llenwch ffurflen gais am waith trwsio ar ein gwefan ac atodwch cymaint o luniau â phosib.

[www.adra.co.uk/gwneud-cais-am-waith-trwsio/](http://www.adra.co.uk/gwneud-cais-am-waith-trwsio/)

I gael mwy o wybodaeth am y gwasanaeth a'n hamserlen trwsio, ewch i'n gwefan:

[www.adra.co.uk/fy-nghartref/cynnal-a-chadw/](http://www.adra.co.uk/fy-nghartref/cynnal-a-chadw/)



## Gwaith trwsio - eich cyfrifoldeb

Eich cyfrifoldeb chi yw rhai gwaith trwsio a gwelliannau. Er enghraifft:

- Pethau rydych wedi gosod eich hun
- Ffitiadau ystafell ymolchi fel cypyrddau, drychau, cyrtlen cawod, rheiliau tyweli, plygiau a chadwyni
- Gosod seddi toiled newydd

- Cynnal a chadw cyffredinol o'r system wresogi - rheoli'r amserydd, gwaedu rheiddiaduron, ac ail-osod pwysedd eich boeler os oes angen
- Addurno
- Eich offer trydanol chi - fel poptai, oergelloedd a pheiriannau golchi dillad
- Gerddi - cynnal a chadw unrhyw dyfiant, glaswellt, llwyni, coed, gwrychoedd
- Goleuadau - holl fylbiau a sbardunwyr (starter)
- Cloeon newydd
- Materion fel cyflymder y band eang
- Holl erialau teledu sydd ddim yn rhai cymunedol; dylech drefnu i'r gwaith gael ei wneud gan berson cymwys addas.

## Gwaith y gellir codi tâl amdano

Chi sy'n gyfrifol am unrhyw ddifrod i'ch eiddo, gardd neu ardaloedd sy'n cael eu rhannu gyda phobl eraill.

Os nad ydych yn cadw'r ardaloedd yma yn lân a thaclus, yn achosi/caniatau difrod ac yn peidio â'i drwsio fel yr ydym yn gofyn i chi wneud, byddwn yn ail-godi tâl arnoch chi am y gwaith.



Os oes angen i ni wneud gwaith trwsio yr ydych chi'n gyfrifol amdany'n nhw, efallai y byddwn yn codi tâl amdano. Efallai y bydd ffioedd ychwanegol yn cael eu codi os ydych yn gwneud cais am waith trwsio brys tu allan i oriau gwaith os nad ydi o'n waith brys go iawn.



Am fwy o wybodaeth am ba waith trwsio y mae angen i chi dalu amdany'n nhw, ewch i'n gwefan i weld y prisiau presennol, a sut i dalu.

[www.adra.co.uk/report-a-problem-welsh/](http://www.adra.co.uk/report-a-problem-welsh/)

Os ydi'r difrod yn cael ei achosi gan drosedd, er enghraifft torri mewn, rhaid i chi adrodd i'r Heddlu a rhoi rhif cyfeirnod trosedd i ni.

## Mynediad i'ch cartref

Byddwn yn cysylltu efo chi ymlaen llaw, drwy ffôn, neges destun, e-bost neu lythyr os oes angen i ni ymweld â'ch cartref. Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch manylion cyswllt.

Os nad ydych adref am apwyntiad, cysylltwch efo ni cyn gynted â phosib i ail-drefnu. Mae apwyntiadau sydd wedi'u methu yn wastraffus ac yn achosi oedi; gallai ein staff a chontractwyr wneud gwaith arall.

Mae ein staff, ein contractwyr a'n hasiantau i gyd yn gweithio i god ymddygiad ac yn cario cerdyn adnabod. Byddant yn dangos eu cerdyn adnabod i chi. Dylech bob amser ofyn am ei weld. Os ydych dal yn ansicr, ffoniwch ni i wirio pwy ydyn nhw.



## Cynnal a chadw eich cartref, gardd a manau cymunedol

Fel deiliad contract, rhaid i chi gadw eich cartref mewn cyflwr da a chynnal a chadw eich gardd (os oes gennych un). Os ydych yn byw mewn fflat, peidiwch â gadael eitemau mewn ardaloedd cymunedol gan eu bod yn risg tân ac efallai y byddan nhw'n cael eu symud.

## Addasiadau a Gwelliannau

Bydd angen caniatâd ysgrifenedig gennym ni cyn gwneud addasiadau neu welliannau i'ch cartref.



Ewch i'n gwefan i weld y math o waith y mae angen caniatâd yn ysgrifenedig cyn i chi gychwyn.

[www.adra.co.uk/newidiadau-a-gwaith-adeiladu/](http://www.adra.co.uk/newidiadau-a-gwaith-adeiladu/)

I wneud cais, cwblhewch y ffurflen gais ar y wefan neu anfonwch e-bost atom.

## Diogelwch Nwy / LPG / Olew

Mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i wasanaethu eich system nwy/olew bob blwyddyn.

Rhaid i chi roi mynediad i'ch cartref i hyn ddigwydd. Os na fyddwch chi adra ar gyfer apwyntiad, cysylltwch efo ni cyn gynted â phosib i aildrefnu.

Os na allwn gael mynediad i'ch cartref neu os ydych wedi gwrthod mynediad, efallai y bydd rhaid i ni gymryd camau cyfreithiol i gael mynediad a chapio eich cyflenwad nwy/olew i sicrhau eich diogelwch.

Yn ystod y gwiriad diogelwch, byddwn yn gwirio:

- ✓ Y gosodiad boeler a ffliw
- ✓ Pwysedd a lefelau CO<sub>2</sub>
- ✓ Gwiriad gweledol o'r popty nwy
- ✓ Gwasanaethu'r tân nwy (os ni sydd biau'r tân nwy)
- ✓ Glanhau'r trap cyddwysiad
- ✓ Profi pob larwm mâtg, gwres/carbon monocsid yn yr eiddo



## Awgrymiadau ar sut i sicrhau bod yr apwyntiad yn ddi-drafferth.

- ✓ Rhaid i rywun 16 oed neu hŷn fod gartref
- ✓ Clirio unrhyw eitemau o dan y boeler neu o amgylch y mesurydd
- ✓ Cadw anifeiliaid i ffwrdd o'r ardal waith.
- ✓ Sicrhau bod digon o danwydd ar gael. Os nad oes gennych danwydd, ni allwn sicrhau diogelwch y boeler a bydd rhaid i ni gapio'r cyflenwad nes eich bod yn gallu cael mwy o danwydd.

Byddwch yn cael copi o'r dystysgrif pan fydd y gwasanaeth wedi'i gwblhau neu gapio.

## Os ydych chi'n aroglu nwy

Gwnewch yn siŵr eich bod yn:

- ✓ Agor pob drws a phob ffenest
- ✓ Diffodd y cyflenwad nwy wrth y falf rheoli mesurydd (os ydych yn gwybod ble mae) a pheidiwch â chynnau unrhyw offer trydanol na chynnau fflam noeth.
- ✓ Ffoniwch Rif Argyfwng Nwy Grid Cenedlaethol ar **0800 111 999**

## Diogelwch Tân mewn Fflatiau

Mae gennym bolisi "Addas i Aros" yn y rhan fwyaf o'n fflatiau. Dylech fod yn gwybod beth yw cynnwys yr hysbysiad tân yn yr ardal gymunedol.

- ✓ Mewn tân yn y fflat, dylech rybuddio eraill, gwagio'r adeilad a ffonio'r Gwasanaeth Tân ar **999**.

- ✓ Mewn tân yn yr ardal gymunedol, dylech wagio'r adeilad a ffonio'r Gwasanaeth Tân ar **999**.
- ✓ Dylai pob preswlydd sydd ddim wedi'u heffeithio yn uniongyrchol gan y tân "Aros" yn eu fflat heblaw eu bod yn teimlo nad ydynt yn ddiogel, eu bod yn cael eu heffeithio gan y tân neu eu bod yn cael cyfarwyddyd gan y gwasanaeth tân i adael.



**Diogelwch Tân-**

[www.adra.co.uk/cymorth-i-chi/diogelwch-tan/](http://www.adra.co.uk/cymorth-i-chi/diogelwch-tan/)

## Wrth adael adeilad pan fydd yna dân:

- ✓ Peidiwch â chasglu eitemau personol
- ✓ Peidiwch â thrio diffodd y tân eich hun
- ✓ Os oes lifft yn eich bloc - peidiwch â'i ddefnyddio - defnyddiwch y grisiau
- ✓ Peidiwch â mynd yn ôl i'r adeilad nes i chi gael gwybod ei fod yn ddiogel
- ✓ Peidiwch â chynhyrfu

## Diogelwch Trydanol

Gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod am broblemau trydanol cyn gynted ag y maent yn dod i'r amlwg, yn ogystal ag edrych ar ôl unrhyw eitemau trydanol sydd gennych yn y tŷ.

Byddwn yn trefnu bod Adroddiad Cyflwr Archwiliad Trydanol (EICR) yn cael ei gynnal i gadarnhau bod y gosodiad trydanol wedi'i asesu ac yn ddiogel i'w ddefnyddio. Bydd hyn yn cael ei wneud bob 5 mlynedd a bydd copi o'r EICR yn cael ei anfon i chi ar gyfer eich cofnodion o fewn 14 diwrnod o gael ei gyhoeddi.

Os oes unrhyw waith gwella pellach angen eu gwneud yn dilyn EICR sydd wedi'i gynnal yn eich cartref, bydd cadarnhad o'r gwaith yn cael ei anfon i chi o fewn 14 diwrnod o'r gwaith yn cael ei gwblhau.



## Asbestos

Mae asbestos yn bresennol yn y rhan fwyaf o gartrefi a does dim angen i chi boeni am hyn. Dyma rhai o'r lleoedd lle y gall asbestos fod yn eich cartref:

- Gwteri a phibelli dŵr glaw
- Blancedi tân
- Artex
- Toeau garejis neu siediau
- Leinin waliau, nenfydau a drysau
- Paneli insiwleiddio mewn rhai gwresogyddion stôr
- Paneli bath
- Ffliwiau gwres canolog
- Pacio asbestos llac rhwng lloriau ac mewn waliau partisiwn
- Teils llawr

I osgoi rhyddhau ffibrau asbestos yn eich cartref, peidiwch â gwneud unrhyw waith DIY heb gael caniatâd a chynghor gennym ni gyntaf. Gallai pethau fel sandio neu ddrilio waliau, drysau, nenfydau neu ofodau to ryddhau ffibrau asbestos. Os ydych yn sylwi ar unrhyw ddeunyddiau asbestos wedi difrodi, neu ddeunyddiau sydd o bosib yn cynnwys asbestos, cysylltwch efo ni ar unwaith.

## Eich cefnogi yn eich cartref

Rydym yn cynnig gwasanaeth cefnogi i helpu pobl i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartref eu hunain.

### Gwasanaeth Cefnogi Tenantiaid

Os ydych yn byw yn ardal Gwynedd ac angen cefnogaeth gyda'ch tenantiaeth, gallwch gael eich cyfeirio at Un Pwynt Mynediad Cyngor Gwynedd a fydd yn asesu eich anghenion ac yn eich cyfeirio i'r darparwr cymorth priodol. Os ydych yn byw y tu allan i Wynedd, gallwn eich cyfeirio at yr awdurdod lleol yn eich ardal a fydd yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Y math o gefnogaeth sydd ar gael:

- Problemau gyda dyled a rheoli arian
- Rheoli tenantiaeth a chymorth i setlo a chynnal eich cartref
- Helpu i ddeall, darllen a llenwi ffurflenni, llythyrau a biliau
- Cefnogaeth i ddatblygu sgiliau byw ymarferol
- Cefnogaeth i gysylltu ag asiantaethau eraill

### Gwasanaeth Tai â Chymorth

Gall y gwasanaeth hwn eich helpu i gadw eich annibyniaeth mor hir â phosib, a gwella ansawdd bywyd a'ch iechyd a lles. Gallai pobl dros 55 oed neu bobl ag anableddau fod yn gymwys ar gyfer y cymorth hwn. Codir tâl am y gwasanaeth. Efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth gyda'r tâl gwasanaeth os yw'r safle'n gymwys ar gyfer y Grant Cymorth Tai. Mae hwn yn grant a roddir gan Lywodraeth Cymru i'r



awdurdod lleol i helpu i ariannu gwasanaethau i bobl sy'n agored i niwed. Mae'r gwasanaeth hwn hefyd ar gael yn y gymuned, ond mae lleoedd yn gyfyngedig.

### Y math o gefnogaeth a gynigir:

- Annog a chynorthwyo deiliaid contract i fyw'n annibynnol.
- Gwiriadau lles 2/3 gwaith yr wythnos naill ai wyneb yn wyneb neu alwadau ffôn.
- Cynllun cymorth personol wedi'i asesu ar sail anghenion
- Cyfeirio at asiantaethau eraill
- Trefnu digwyddiadau cymdeithasol ar y safle neu oddi ar y safle

### Addasiadau

Os oes gennych chi neu unrhyw un sy'n byw yn eich cartref anabledd tymor hir neu bryder iechyd sy'n golygu eich bod yn cael problemau mynd allan, anhawster o ran symud o gwmpas neu gyflawni tasgau dydd i ddydd yn ddiogel yn eich cartref, yna efallai gallwn helpu.



**Gwneud cais am addasiadau -**  
[www.adra.co.uk/gwneud-cais-am-addasiadau-ich-cartref/](http://www.adra.co.uk/gwneud-cais-am-addasiadau-ich-cartref/)

Gallwn eich cynghori ar sut i wneud addasiadau bach heb angen ymweliad gan therapydd galwedigaethol. Mae enghreifftiau yn cynnwys gosod:

- Canllaw llaw
- Canllaw gafaél hyd stepiau a grisiau tu allan
- Sêff gorïad
- Tapiau Lifer

Ar gyfer addasiadau canolig a mawr rhaid cael asesiad ac argymhelliad gan therapydd galwedigaethol neu asesydd dibynadwy. Bydd cyfeiriadau addasiadau canolig a mawr yn cael eu hystyried gan y Panel Addasiadau a rhaid cytuno eu bod yn addasiad rhesymol i gael eu cymeradwyo.

Cysylltwch am fwy o wybodaeth:  
**[ymholiadau@adra.org.uk](mailto:ymholiadau@adra.org.uk)**



### Cam-drin Domestig

Rydym yn cydnabod pa mor ddifrifol yw cam-drin domestig, a'r effaith ddinistriol ar ddiodefwyr a'u teuluoedd.

Os ydych yn ddiodefwyr cam-drin domestig, neu'n poeni am denant arall, ffrind neu aelod o'r teulu, cysylltwch efo ni yn syth i gael cyngor a chymorth.



**Cam-drin Domestig -**  
[www.adra.co.uk/domestic-abuse/](http://www.adra.co.uk/domestic-abuse/)

## Diogelu

Os oes gennych chi neu rywun yr ydych chi'n eu hadnabod bryderon diogelu, adroddwch am y pryderon ar unwaith:



**Diogelu -**  
[www.adra.co.uk/diogelu/](http://www.adra.co.uk/diogelu/)

## Cefnogaeth Arall

Os ydych angen unrhyw gefnogaeth arall gennym ni, fel:

- Help gyda lleihau eich defnydd o ynni a chostau
- Help efo cynyddu eich sgiliau digidol
- Help efo dod o hyd i gyflogaeth, prentisiaethau neu brofiad gwaith

Cysylltwch efo'n fîm Cymunedol i drafod, rydym yma i helpu.



**Cymorth i chi -**  
[www.adra.co.uk/cymorth-i-chi/](http://www.adra.co.uk/cymorth-i-chi/)



**Academi Adra -**  
[www.adra.co.uk/cymorth-i-ddatblygu-eich-sgiliau/](http://www.adra.co.uk/cymorth-i-ddatblygu-eich-sgiliau/)

## Cysylltiadau mewn argyfwng

Dyma restr o fanylion cyswllt brys defnyddiol, os oes gennych waith trwsio neu fater brys:



**Adra - 0300 123 8084**

Os oes angen i chi adrodd ar waith trwsio brys tu allan i oriau swyddfa arferol.

Cais am waith trwsio -

**[www.adra.co.uk/gwaith-trwsio/](http://www.adra.co.uk/gwaith-trwsio/)**



**Eich Awdurdod Lleol**

Defnyddiwch hwn i ddod o hyd i fanylion cyswllt eich awdurdod lleol os oes angen i chi adrodd ar ddigwyddiad brys yn ymwneud â'r briffordd neu gysylltu efo adran gwasanaethau cymdeithasol lleol tu allan i oriau.

Dod o hyd i'ch cyngor lleol -

**[www.gov.uk/find-local-council](http://www.gov.uk/find-local-council)**

**Cyngor Gwynedd - 01766 771000**

**Cyngor Conwy - 01492 574000**

**Cyngor Sir Ddinbych - 01824 706000**

**Cyngor Sir y Fflint - 01352 702121**

**Cyngor Wrecsam - 01978 292000**



## Dŵr Cymru – 0800 052 0130

Os oes gennych chi argyfwng, neu heb ddŵr.  
Rhoi gwybod am broblem - [contact.dwrcymru.com/cy-gb/report-an-issue](https://www.dwrcymru.com/cy-gb/report-an-issue)



## Wales and West Utilities - 0800 111 999

Os ydych chi'n aroglu nwy, neu angen adrodd ar  
ddigwyddiad brys nwy neu garbon monocsid

Argyfyngau a chyngor diogelwch -  
[www.nationalgas.com/responsibility/safety](https://www.nationalgas.com/responsibility/safety)



## SP Energy Networks – 105

I adrodd nad oes gennych drydan neu am ddifrod i  
linellau pŵer trydan.

Dim trydan yn y DU?  
Ffoniwch **105** am ddim | Dod o hyd i'ch darparwr trydan  
[www.powercut105.com/cy/](https://www.powercut105.com/cy/)



## Cyfoeth Naturiol Cymru – 0300 065 3000

Am gyngor neu restr o rybuddion llifogydd

Cyfoeth Naturiol Cymru/ Llifogydd -  
[www.naturalresources.wales/flooding](https://www.naturalresources.wales/flooding)

# Gwella eich Gwasanaeth

## Dweud eich Dweud

Mae eich barn yn bwysig i ni. Rydym eisiau i chi gymryd rhan i'n helpu ni wella ein gwasanaethau.



Mwy o wybodaeth:

**Eich Llais** -  
[www.adra.co.uk/eichllais](https://www.adra.co.uk/eichllais)

## Cwynion, canmoliaeth ac adborth

Rydym yn gwerthfawrogi adborth gan ein cwsmeriaid ac yn eich annog i adael i ni wybod os ydym wedi gwneud rhywbeth yn dda yn eich barn chi.

Mewn achosion lle nad ydych yn fodlon gydag unrhyw agwedd o'n gwasanaeth, gallwch gysylltu gyda'n Tîm Gwasanaethau Cwsmer, a fydd yn ceisio cynnig datrysiad.

Rydym yn delio gyda chwynion mewn ffordd gadarnhaol, gan groesawu cwynion fel cyfleoedd i wella'r ffordd yr ydym yn gweithio.



Os oes gennych gŵyn, adborth neu ganmoliaeth i rannu gyda ni, cysylltwch efo ni.

[www.adra.co.uk/cysylltu-a-ni/](https://www.adra.co.uk/cysylltu-a-ni/)

## Eich trin yn deg

Rydym wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac i sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i bawb a'u bod nhw'n briodol ac yn deg.

Rydym yn cydymffurfio gyda Deddf Diogelu Data 2018 er mwyn gwneud yn siwr nad ydy'r wybodaeth bersonol rydych yn ei roi i ni yn cael ei gam-ddefnyddio.



Mae mwy o wybodaeth ar ein gwefan ynghylch hyn:

**Preifatrwydd** - [www.adra.co.uk/preifatrwydd/](http://www.adra.co.uk/preifatrwydd/)

## Gadewch i ni wybod

Eich cyfrifoldeb chi yw gadael i ni wybod am unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau neu gartref. Mae hyn yn cynnwys newidiadau fel:

- Rhif ffôn newydd
- Cyfeiriad e-bost newydd
- Babi newydd
- Rhywun yn symud i mewn neu allan
- Marwolaeth yn y cartref.

Cysylltwch efo ni i ddiweddarau eich gwybodaeth.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau eich cartref newydd.